Hydref 4ydd, 2013

Etholiad Rhiant Lywodraethwr 2013

Annwyl Rieni,

Ar ran Llywodraethwyr yr ysgol hon gwahoddwn enwebiadau oddi wrth rieni, neu warchweidwaid plant sy'n mynychu'r ysgol, i ethol 4 Rhiant Lywodraethwr.

Bydd y Rhiant Lywodraethwr yn dal swydd am dymor o bedair blynedd.

Os dymunwch gael eich enwebu, fe wneir enwebiadau ar y ffurflen briodol, a'u cynnig a'u heilio gan rieni sydd eu hunain yn gymwys i sefyll a phleidleisio mewn etholiad yn yr ysgol. Rhaid i riant a enwebwyd fel hyn ddynodi ei fod yn cytuno i'r enwebiad trwy arwyddo'r ffurflen. Rhaid anfon ffurflenni enwebu wedi eu llenwi yn ôl i'r ysgol erbyn **Dydd Gwener 18ed o Hydref 2013**. Ni fydd unrhyw ffurflen a dderbynir ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei hystyried.

Os na fydd y nifer o enwebiadau cywir yn fwy na'r nifer o lefydd gwag, ni fydd angen ethol trwy bleidlais.

Os bydd mwy o enwebiadau nag sydd o lefydd gwag, yna cynhelir pleidlais gudd.

Dylid anfon pob ffurflen bleidleisio at y Pennaeth erbyn y dyddiad a nodwyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Meinir Jones, Pennaeth

Pennaeth: Miss Meinir Lloyd Jones
Dirprwy Bennaeth:Mr Gwion Owen
Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Gordon Williams

Heol Watling, Llanrwst, LL26 0EY
✈ 01492 640 342
✘ pennaeth@brogwydir.conwy.sch.uk
✚ www.ysgolbrogwydir.org